

Bydd Ian Smith, Uwch Curadur Diwydiant Modern a Chyfoes yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau,

yn dangos sut i greu Capsiwl Amser mewn 6 cam syml – mae'n hawdd iawn a gall unrhyw un gymryd rhan, gan adael cofnod o'n hunain i genedlaethau'r dyfodol.



Cam 1. I greu Capsiwl Amser, byddi angen rhywbeth fel jar goffi neu bot jam gwag gyda chaead sy'n sgriwio. Cer i chwilota yn y bin ailgylchu – a gwna'n siŵr ei fod yn lân!



Cam 2. Chwilia am bethau i'w rhoi yn y Capsiwl Amser. Beth am bethau fel ceiniogau, neu dderbynneb siop i ddangos faint oedd pethau'n gostio.

Mae Ian wedi rhoi car tegan, deinosaurs plastig, band elastig, bathodyn dysgu Cymraeg, pensel a hen gerdyn SIM ffôn symudol yn ei Gapsiwl Amser.



Cam 3. Wedi dod o hyd i ddigon o bethau ar gyfer y Capsiwl Amser? Gwych. Nawr beth am ysgrifennu nodyn bach – dyweda rywbeth am dy fywyd. Gyda pwy wyt ti'n byw? Beth wyt ti'n hoffi gwneud?

Beth am roi llun o dy hun yn y Capsiwl Amser? Gelli di wneud hunan-bortread hyd yn oed, a dweud wrth bobl pam dy fod yn claddu dy gapsiwl.



Cam 4. Wedi gorffen dy nodyn? Iawn – amser cau caead y Capsiwl Amser yn dynn. Beth am roi tâp o gwmpas ymyl y caead i wneud yn siŵr ei fod wedi cau'n iawn?




Cam 5. Nawr mae'n amser claddu'r Capsiwl Amser. Yr ardd yw'r lle gorau, ond os nad oes gen ti ardd, galli fynd â'r capsawl mewn cornel dywyll yn yr atig!

Mae lan wedi rhoi capsawlau amser mewn waliau hyd yn oed, pan oedd yn adeiladwr!



Cam 6. Gwna fap yn dangos lle rwyd ti wedi cuddio'r Capsiwl Amser. Mae hyn rhag ofn dy fod eisiau gwneud mwy nag un, ac fel bod gen ti ffordd o wybod lle mae pob un.



Wedi gorffen? Llongyfarchiadau ar greu Capsiwl Amser. Cofia – gallai dy gapsiwl bara blynnyddoedd lawer – efallai bydd rhywun yn ei gloddio yn y flwyddyn 2121 ac yn dysgu am dy fywyd di! Rwyd ti wedi creu hanes!

Amgueddfa
Genedlaethol
y Glannau
STORI DIWYDIANT A
BLAENGAREDD CYMRU

National
Waterfront
Museum
WALES' STORY OF
INDUSTRY & INNOVATION



national
museum
wales
amgueddfa
cymru

ysbrydoli pobl
newid bywydau
inspiring people
changing lives